

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Dyddiad: 10 Hydref, 2024
Chraffu Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH, DYDD GWENER, 18 HYDREF 2024 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, BODLONDEB, CONWY NEU TRWY GYSWLLT FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 **PECYN AGENDA** (Tudalennau 3 - 28)

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu

Matt Georgiou, Cyfreithiwr

Cyfeiriad Post: PO Box 1, CONWY, LL30 9GN

Gofynnwch am:

Dawn Hughes

 **01492 576061**

 committees@conwy.gov.uk

Ein Cyf:

MG/DCH

Eich Cyf:

Dyddiad :

10/10/2024

RHYBUDD O GYFARFOD

Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Cyfarfod Aml-Leoliad - Bodlondeb

Dydd Gwener, 18 Hydref 2024

10.00 am

Matt Georgiou
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu

At:-

Y Cynghorwyr:

Joan Butterfield
Cheryl Carlisle (Cadeirydd)
David Carr
Kelly Clewett
Pauline Edwards
Alan Hughes
Gareth Jones
Paul Keddie

Bernice McLoughlin
Terry Mendies
Stephen Price
Kay Redhead
Cllr Arwel Roberts
Austin Roberts
John Roberts
Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd)

RHAGLEN

Dalier sylw - Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972, y mae'n bosibl y bydd y Cyhoedd a'r Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitemau lle mae'n debygol y bydd gwybodaeth eithriadig yn cael ei datgelu.

Nodyn atgoffa – Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwn. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth a natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cofnodion**

Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir (*Tudalennau 3 - 7*)

5. **Cyfraniad partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i waith y Bwrdd a buddion y Bwrdd i bartneriaid**

Trafod gyda Phrif Weithredwr Tai Gogledd Cymru eu cyfraniad a'u hymrwymiad i waith y BGC, a manteision bod yn gyfranogwr gwadd ar y BGC i'r sefydliad.

6. **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych - Adroddiad Blynnyddol 2023/2024** (*Tudalennau 8 - 14*)

7. **Rhaglen waith i'r dyfodol** (*Tudalennau 15 - 16*)

8. **Eitemau er Gwybodaeth**

i) Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (*Tudalennau 17 - 22*)

ii) Rhaglen gwaith i'r dyfodol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (*Tudalennau 23 - 26*)

Nodyn: Nid yw Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu ystyried unrhyw eitem o fusnes mewn cyfarfod o'r prif Gyngor oni bai fod y rhybudd angenrheidiol wedi ei roi ymlaen llaw. Felly, oni bai fod eitem yn cael ei hystyried fel eitem frys, ni chaniateir ystyried unrhyw fater arall.

Os bydd y larwm tân yn canu, dylai'r Aelodau fynd allan o'r adeilad drwy'r allanfa dân agosaf.

FFITEM RHAGLEN 4

CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD
GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Dydd Gwener, 20 Hydref 2023 at 10.00 am
Cyfarfod Aml-leoliad - Neuadd y Sir, Rhuthun - Cyngor Sir Ddinbych

- Yn Bresennol: Y Cynghorydd Stephen Price (Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)
Y Cynghorwyr (Dros y we): David Carr, Pauline Edwards, Paul Keddie, Bernice McLoughlin, Terry Mendies, Angie O`Grady ac Austin Roberts
- Swyddogion: Hannah Edwards (Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus), Rhian Evans, Dawn Hughes (Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgor), Jane Angharad Jones (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), Amanda Jones (Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol) Iola McGregor (Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad) a Rhodri Tomos-Jones (Gweinyddwr Pwyllgorau)
- Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Jason McLellan a Mark Hughes - Arweinydd Tîm Pobl a Lleoedd - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Yn absennol: Y Cynghorwyr: Kelly Clewett, Alan Hughes, Kay Redhead a John Roberts

10. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Joan Butterfield, Cheryl Carlisle (Cadeirydd), Arwel Roberts a Gareth Sandilands (Is-gadeirydd).

Yn dilyn derbyn ymddiheuriadau gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cynigiwyd ac eiliwyd penodi'r Cynghorydd Stephen Price yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cynghorydd Stephen Price yn Gadeirydd Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

11. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Dim.

12. **MATERION BRYS**

Dim.

13. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2023, i'w cymeradwyo.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo a chofnodi cofnodion Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2023 fel cofnod cywir.

14. **CYFRANIAD PARTNERIAID Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BGC) I WAITH Y BWRDD A BUDDION Y BWRDD I BARTNERIAID**

Rhoddodd Mr Mark Hughes (Arweinydd Tîm Pobl a Lleoedd - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)), y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfraniad ac ymrwymiad CNC i waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a'r manteision i'r sefydliad o fod yn aelod o'r Bwrdd.

Atgoffwyd yr Aelodau mai dim ond gwaith CNC ar y Bwrdd a'i gyfraniad iddo y gall y Cydbwyllgor graffu arno, ac nid unrhyw faterion ehangach na hynny.

Cyfeiriwyd at y canlynol:

- Roedd CNC wedi cyfrannu'n sylweddol at waith y Bwrdd dros y blynyddoedd diwethaf ac yn gwerthfawrogi'r bartneriaeth.
- Bu i fewnbwn strategol budd-ddelliaid helpu'n fawr i ysgogi dealltwriaeth a gweithredu ar y cyd.
- O safbwynt CNC, roedd newid hinsawdd yn cael ei ystyried fel un o'r ysgogwyr mwyaf ar draws y sector cyhoeddus, yn ogystal â'r argyfwng costau byw.

Roedd CNC yn awyddus i feithrin dealltwriaeth ymysg partneriaid y Bwrdd am y risgiau ac ysgogi trafodaethau ynglŷn â meddwl trwy systemau.

- Tynnwyd sylw at feithrin dealltwriaeth ar y cyd o'r argyfwng natur a datblygu cysylltiadau â'r Cynllun Lles.

Nodwyd bod tebygrwydd rhwng Cynllun Corfforaethol CNC a Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Roedd CNC wedi mabwysiadu'r Siarter Teithio Llesol.
- Mae gweithio mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a Fforwm Afon Clwyd wedi profi'n fanteisiol.
- Fe ystyriwyd edrych ar ardaloedd daearyddol bach a meithrin dealltwriaeth ymysg partneriaid o'r materion integredig a wynebir fel dewis.

Diolchodd yr Aelodau i Mr Hughes am ddiweddariad llawn gwybodaeth ac aethpwyd ymlaen i drafod y canlynol:

- Mynegwyd pryder am ansawdd y dŵr yng Nghonwy a Sir Ddinbych, yn dilyn adroddiadau diweddar ynglŷn â Dŵr Cymru yn gollwng carthion heb eu trin i'r amgylchedd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod partneriaid yn gweithio gyda Dŵr Cymru ar atebion arloesol a phe bai'r Aelodau'n dymuno cael rhagor o wybodaeth, y byddai Mr Hughes yn fodlon eu cyfeirio at gydweithwyr yn Dŵr Cymru.
- Sut i greu gwell dealltwriaeth o'r heriau a wynebir a chynnwys yr unigolion sy'n gwadu newid hinsawdd/ natur.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod CNC yn cynorthwyo partneriaid, yn arbennig y rhai mewn addysg uwch, trwy ddarparu deunydd addysgol, i'w galluogi i gynnwys materion yn ymwneud â'r hinsawdd a natur yn neunydd/ cwricwlwm eu cwrs.

Fe awgrymwyd cynnig cwrs a/neu ddeunydd i Aelodau Etholedig i gynorthwyo ag addysgu cymunedau. Cytunodd yr Arweinydd Tîm Pobl a Lleoedd i archwilio posibilrwydd yr argymhelliad hwn ymhellach â chydweithwyr yn CNC.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

15. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH - DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD GYDA'R CYNLLUN LLES

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych a Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn amlygu cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn erbyn y Cynllun Lles hyd yma.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i holl bartneriaid y Bwrdd sy'n cyfrannu at gyflawni'r Cynllun Lles.

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- Cyfleoedd i Undebau Llafur a mentrau cymdeithasol weithio ochr yn ochr â'r Bwrdd. Dywedodd y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (Conwy), er ei bod yn dda rhyngweithio ac ymgysylltu ag Undebau Llafur ar draws y ddau Awdurdod Lleol, nad oedd rôl benodol i Undebau Llafur na mentrau cymdeithasol ar y Bwrdd, gan mai deddfwriaeth sy'n rheoli aelodaeth partneriaid statudol. Fodd bynnag, roedd rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn cael ei groesawu, a gallai sefydliadau 'eraill' fwydo i mewn i amcanion ehangach y Bwrdd a'r Cynllun Lles. Yn ogystal, dywedodd Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad Cyngor Sir Ddinbych bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgysylltu ag Undebau Llafur.

- O ran cyfranogiad mentrau cymdeithasol, cafodd y prosiect cymunedol ym Mhensarn ei ystyried fel enghraifft dda o ymgysylltu â sefydliadau eraill o fewn y gymuned.
- Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, a Chadeiryddion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fuan. Ystyriwyd hyn fel cyfle gwych i rwydweithio a rhannu arferion da.

PENDERFYNWYD:

Cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth gyflawni Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

16. **RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgor Conwy'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Cynghorwyd yr Aelodau i adolygu'r cyfarfod nesaf ar 15 Mawrth 2024, oherwydd y gallai orgyffwrdd â'r cyfnod cyn etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a'r Etholiad Cyffredinol o bosibl.

Fe awgrymwyd, yn amodol ar sêl bendith y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, bod y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch tai yn cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf a bod diweddariad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn amodol ar y diwygiadau uchod a chael sêl bendith gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

17. **COFNODION CYFARFODYDD Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023, er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD

Nodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023.

18. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD:

**Nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.**

(Daeth y cyfarfod I ben am 10.50 am)



Adroddiad i: Cydbwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Dyddiad y Cyfarfod: Hydref 18, 2024

Aelod / Swyddog Arweiniol: Cynghorydd Jason McLellan, Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Charlie McCoubrey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Awduron yr Adroddiad: Iolo McGregor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Helen Millband a Iona Hughes (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mike Corcoran a Caryl Lewis (Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru)

Teitl: Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023-24

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Adroddiad Blynyddol 2023-24 yn rhoi trosolwg o'r hyn y mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Lles diweddaraf (gweler atodiad A). Mae'n bwysig bod y BGC yn atebol i'r cyhoedd ac mae'r adroddiad hwn yn gyfle i'r bwrdd fyfyrto ar lle maen nhw'n teimlo maen nhw'n gwneud gwahaniaeth, yn unol â'r 5 ffordd o weithio, ac mae hefyd yn amlinellu cyfeiriad y Bwrdd yn y dyfodol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i BGC Conwy a Sir Ddinbych baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol dim hwyrach nag 14 mis ar ôl cyhoeddi ei gynllun lles lleol

2.2 Mae'n rhaid i'r BGC roi copi o'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Llywodraeth Leol dynodedig er mwyn iddynt graffu arno yn unol â'u dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr aelodau'n ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol BGC Conwy a Sir Ddinbych 2023/24 ac yn rhoi adborth/argymhellion i'r Bwrdd fel sy'n ofynnol.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r canllawiau cysylltiedig â'r Ddeddf yn pennu bod yn rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi'r camau a gymerodd y Bwrdd i gyflawni amcanion eu cynllun llesiant. Fodd bynnag gall yr adroddiad hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r Bwrdd yn ei hystyried yn briodol. Felly mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu -

- Yr hyn a gyflawnwyd eleni
- Meysydd eraill o waith

- Myfyrdodau'r Bwrdd ar ôl y flwyddyn hon ac edrych tua'r dyfodol; a
- Sut y gall pobl gymryd rhan.

4.2 Mae angen i'r Bwrdd anfon copi o'u hadroddiad blynyddol at Weinidogion Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu dynodedig y Bwrdd.

5. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

5.1 Ymgynghorwyd ag aelodau'r BGC a'r swyddogion sy'n cefnogi'r bwrdd hwnnw.

6. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

6.1 Amherthnasol

7. Pŵer i wneud y penderfyniad

7.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7.2 Mae pwerau craffu wedi'u nodi yn:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Adran 58 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Rheoliad 3 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013
- Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cylch Gorchwyl a Rheolau Gweithdrefnau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych:



Adroddiad Blynyddol 2023 i 2024: Hunan-fyfyrio ar y flwyddyn

1. Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn hunan-fyfyrio am y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud ym mhedwaredd flwyddyn ein [Cynllun Lles](#) newydd ar gyfer 2023-2028. Mae adroddiad blynyddol yn gyfle i wneud yn siŵr ein bod fel Bwrdd yn atebol i'r cyhoedd, a'n bod ni'n treulio amser yn hunan-asesu'r hyn rydym wedi'i gyflawni, herio ein hunain o ran y gwahaniaeth rydym yn ei wneud ac ystyried meysydd gwella ar gyfer y dyfodol. Mae ein holl waith yn cyd-fynd â [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a'r [5 ffordd o weithio](#).

Gallwch ddysgu mwy [amdanom fel Bwrdd](#) ar ein gwefan.

2. Ein blaenoriaethau a sut byddwn yn gweithredu

Mae ein Cynllun Lles yn canolbwyntio ar **wneud Conwy a Sir Ddinbych yn lle mwy cyfartal â llai o amddifadedd**. Rydym wedi nodi 4 thema allweddol i gefnogi ein prif amcan -

- **Lles** – Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, fel yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, neu'r cynnydd mewn costau byw.
- **Economi** – Mae'r economi'n llewyrchus, wedi'i chefnogi gan weithlu medrus sy'n barod at y dyfodol.
- **Cydraddoldeb** – Mae rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig yn wynebu llai o rwystrau.
- **Tai** - Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da.

Mae ein Cynllun Lles hefyd yn amlinellu 9 egwyddor yr ydym wedi cytuno i'w cymhwyso wrth ddarparu'r cynllun. Rydym wedi defnyddio'r flwyddyn hon i ganolbwyntio ar wella sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd.

- **Arweinyddiaeth**: Darparu arweinyddiaeth a chyfrifoldeb a rennir am newid hirdymor effeithiol, gan ddefnyddio ein llais ar y cyd fel partneriaid i ddylanwadu ac eirioli ar ran ein cymunedau.
- **Cyd-gynhyrchu**: Meithrin amgylchedd, ac annog rhwydweithiau cryf, sy'n hyrwyddo ymgysylltiad a chyfathrebu ystyrlon gyda'n cymunedau, cefnogi diwylliant lle mae cyd-gynhyrchu ac mae cyfranogiad yn ffynnu.
- **Tegwch**: Hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith i gyd.
- **Gwneud penderfyniadau deallus**: Cynnal llywodraethu effeithiol sy'n caniatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithredu ar argymhellion a wnaed drwy waith ymchwil ac ymgysylltiad o ansawdd.
- **Tryloywder**: Cael trefniadau rheoli perfformiad eglur a thryloyw ar waith.
- **Asesu**: Sicrhau bod ein gweithgareddau a'n penderfyniadau yn cael eu hasesu ar gyfer eu heffaith yn nhermau Nodau Lles cenedlaethol, egwyddor datblygiad cynaliadwy, a'r pum ffordd o weithio.

- **Adlewyrchu:** Defnyddio'r cyngor a roddwyd gan swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill i ganolbwyntio ar drafodaethau wrth i ni barhau gyda'n camau.
- **Datblygiad:** Archwilio a chefnogi cyfleoedd ar y cyd ar gyfer hyfforddiant a datblygu'r gweithlu, megis cyfleoedd am secondiad rhwng ein sefydliadau.
- **Iaith:** Cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn, gan integreiddio strategaethau iaith Gymraeg partneriaid.

3. Cynnydd eleni

Cafodd ein Cynllun Lles ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2023 a phenderfynon ni ddefnyddio blwyddyn gyntaf ein Cynllun i archwilio gwahanol ddulliau o gyflawni a sut byddwn yn cydweithio. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn flwyddyn o baratoi at weithredu gydag effaith i ddilyn.

Mae ein prif gyflawniadau yn ystod 2023 i 2024 yn cynnwys -

➤ **Strwythurau a llywodraethu BGC gwell:**

- Cyflwynwyd cyfarfodydd anffurfiol. Dyma gyfle i helpu hwyluso rhwydweithio i bob un o'n haelodau, i adeiladu ymddiriedaeth ac i siarad yn agored am y problemau a'r heriau rydym yn eu hwynebu. Rydym wedi adolygu ein Cylch Gorchwyl hefyd.
- Trafodwyd risgiau ac achosion cyffredin gyda sefydliadau partner all gael effaith ar ddarparu dyheadau ein Cynllun Lles. Roeddem yn teimlo ei bod yn werth edrych ar risgiau ac achosion newydd fel rhanbarth Gogledd Cymru gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill.

➤ **Datblygu gwybodaeth / dealltwriaeth y BGC:**

- Trefnwyd sesiwn ymwybyddiaeth Gwrth-hiliaeth ar gyfer aelodau BGC ledled Gogledd Cymru. Pwrpas hyn yn adeiladu gwybodaeth o wrth-hiliaeth, ymwybyddiaeth o brofiad go iawn a rôl ein uwch arweinwyr wrth feithrin diwylliant o wrth-hiliaeth. Bydd hefyd yn ategu'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Lles, lle mae cydraddoldeb yn thema gyffredin.
- Cynhaliwyd ymarfer Meddwl am y Dyfodol gan ddefnyddio dull Tri Gorwel o ystyried y canlyniadau a hoffem eu cyflawni yn y dyfodol a sut i'w cyrraedd.

➤ **Datblygu dulliau system gyfan o weithio a chydweithio ar draws y rhanbarth:**

- Cafwyd cyflwyniadau ar Feddwl Trwy Systemau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (timau lleol a chenedlaethol). Roedd hyn o gymorth wrth i ni edrych ar ffyrdd y gallwn ddefnyddio'r ymagwedd hwn tuag at ein huchelgais o chwarae rôl fwy arweiniol.
- Yn dilyn trafodaethau cychwynnol, fe gynhalion ni ymarfer mapio systemau i werthuso ein camau nesaf tuag at gyflawni ein Cynllun Lles. Roedd hyn ar gyfer nodi credoau a nodau'r system y gallwn gymryd perchnogaeth drostynt fel Aelodau BGC, a strwythurau systemau a digwyddiadau er mwyn i'n sefydliadau eu harwain.
- Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn cael y gwerth ychwanegol mwyaf o BGC a'r newid trawsffurfiol yr ydym eisiau ei gyflawni.

➤ **Gweithio gyda chymunedau:**

- Datblygwyd a mabwysiadwyd datganiad cenhadaeth ymgysylltiad ar y cyd. Rydym yn gweithio ar ddatblygu cynllun ymgysylltu â chymunedau fel rhan o'n camau nesaf.
- Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Wrecsam i gyflawni prosiect ymgysylltu mewn dwy gymuned yng Nghonwy a Sir Ddinbych (Pensarn a Pharc Bruton yn y Rhyl). Mae'r prosiect yn parhau, ac yn defnyddio dulliau creadigol (fel gwaith celf, ffotograffiaeth a fideo) i gefnogi cymunedau i adrodd eu hanesion ynglŷn â sut deimlad ydi byw yn eu cymuned.
- Cynhaliwyd ymgysylltiad gyda chymunedau amrywiol i ddeall anawsterau ac archwilio'r ffyrdd y gall y sector cyhoeddus helpu i rymuso pobl i mewn i'r byd gwaith. Nodwyd nifer o rwystrau ac awgrymiadau ar gyfer camau i'w cymryd. Mae'r gwaith wedi cael ei wneud yn rhanbarthol ar ran tri BGC Gogledd Cymru.

➤ **Cynnydd mentrau allweddol BGC:**

- Wedi ymrwmo i ddatblygu'r Siarter Teithio Iach yn ein sefydliadau drwy gynnal asesiad gwaelodlin o weithgareddau presennol sefydliadau yn erbyn ymrwymiadau'r Siarter. Bydd hefyd yn adnabod unrhyw fylchau a chyfleoedd i ddatblygu - yn unol â chynlluniau gweithredol presennol.
- Rydym wedi gwneud ychydig o waith paratoi wrth bennu'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r fframwaith Asesiad Risg Newid Hinsawdd a ddatblygwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
- Wedi cyfrannu at brosiect y Gymraeg a chyflogaeth a arweinir gan BGC Gwynedd ac Ynys Môn drwy ein partneriaid.

4. Meysydd Gwaith Eraill

Rydym yn dal i gydweithio â phartneriaethau a chyrrff cenedlaethol eraill i osgoi dyblygu a rhannu syniadau. Eleni rydym wedi -

- Derbyn cyflwyniad ar raglen Cyfraith Gofal Gwrthgyfartal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a thrafodwyd sut y mae'r BGC yn gallu gweithio'n fwy agos gyda'r gwaith hwn gan fod yna gysylltiadau gydag uchelgais BGC o fynd i'r afael ag anghyfartaledd.
- Derbyniwyd cyflwyniad ar raglen Datblygiad Clwstwr Carlam gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac fe'i trafodwyd, gan fod y BGC yn cynnwys y ddwy sir sy'n ei ddefnyddio fel fforwm i nodi a dylanwadu datblygiadau.
- Adroddwyd ar ein cynnydd i bwyllgor craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar y Cyd.
- Parhawyd i weithio'n agos gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru sy'n cynnig cefnogaeth bwrpasol drwy eu rhaglen [Project Dewi](#). Maent yn hollbwysig, ac yn cael eu mewnosod i bopeth a wnawn fel BGC - o weithio ar lefel swyddog, i hwyluso nifer o gyfarfodydd a gweithdai.

- Mynychwyd y Digwyddiad Rhannu Addysg BGC yn Wrecsam.
- Cysylltwyd gyda Phartneriaeth Dealltwriaeth Gogledd Cymru - dyma fforwm defnyddiol er mwyn rhannu gwybodaeth ac addysg.

5. Myfyrio ar eleni ac Edrych Ymlaen

Rydym wedi defnyddio blwyddyn gyntaf y Cynllun i archwilio ein rôl arweiniol, sut y gallwn weithio ar y Cynllun yn wahanol, a datblygu'r manylion er mwyn cyflawni'r Cynllun Lles. Bu'n ddefnyddiol treulio amser yn trafod ble gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth fel Bwrdd, a hynny gyda'r adnoddau a chapasiti cyfyngedig sydd ar gael i ni.

Mae gwella ein dealltwriaeth o Feddwl Trwy Systemau Cyfan wedi bod yn ganolog i hyn, yn ogystal â sut allwn gymhwyso'r dull hwn o weithio er mwyn cyflawni ein Cynllun Lles. Yn dilyn sawl gweithdy, a gefnogwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym wedi adolygu ein Cynllun yn erbyn y pedwar lefel o system i ddeall ei gydbwysedd a nodi bylchau. O ganlyniad i'r ymarfer mapio, roeddem wedi gallu nodi y 3 dull o weithio yr ydym yn dymuno eu defnyddio i ddatblygu cyflawniad y Cynllun Lles. Mae'r dulliau / ffyrdd o weithio yn cwmpasu'r camau cychwynnol sy'n cael eu hamlinellu yn y Cynllun Lles. Rydym yn bwriadu defnyddio ein rhaglen waith fel mecanwaith i nodi sut rydym yn cyflawni'r uchelgais hwn.

- **Peilota** - byddwn yn defnyddio maes er mwyn profi'r 'dull system gyfan o weithio'. Nid ydym wedi dod i gytundeb ar faes eto, ond rydym eisoes wedi trafod defnyddio dull cydlynol wrth rannu gwybodaeth gan ddefnyddio ymgyrchoedd / cynigion partneriaid (megis cymryd credyd pensiwn, cynlluniau ymwybyddiaeth llifogydd).
- **Modelu** - byddwn yn datblygu cyfres syml o ymarferion gweithio / diwylliannol da er mwyn eu mabwysiadu a'u hyrwyddo yn fewnol (trwy ein sefydliadau) ac yn allanol (i'r cyhoedd). Megis mabwysiadu arferion gwyrdd yn ein cyfarfodydd a chynnwys pobl ifanc.
- **Ymgysylltu** - Gyda'r BGC wrth ymgymryd â hyfforddiant, gwahodd arbenigwyr perthnasol, a thynnu ar arbenigedd o fewn sefydliadau ein haelodau i wella dealltwriaeth a nodi'r broses o wneud penderfyniadau.

Rydym wedi defnyddio'r flwyddyn hon i ystyried ein dull o ymgysylltu ac wedi gweithio'n agos gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru i ddatblygu datganiad cenhadaeth ymgysylltiad ar gyfer y Bwrdd. Rydym wedi ymrwymo i -

Dylai pawb yng Nghonwy a Sir Ddinbych wybod beth yw eu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gwybod sut mae'n gweithio i wella lles i bawb, a chael cyfleoedd ystyrlon a hygyrch i fod yn rhan o siapiau'r gwaith hwn, ble bynnag y bydd yn effeithio ar eu bywydau.

Un o'r prif bwyntiau positif y mae'r Bwrdd yn parhau yw'r berthynas a rhwydweithiau a grëwyd drwy ddod â phartneriaid cyhoeddus a gwirfoddol gwahanol sy'n gweithio yng Nghonwy a Sir Ddinbych at ei gilydd. Felly, rydym eisieu adeiladu ar y datganiad cenhadaeth

wrth symud ymlaen a datblygu cynllun ymgysylltu. Fel rhan o hyn, rydym wedi trafod rhai camau ymgysylltu posib y gall aelodau'r BCG eu defnyddio i hyrwyddo gwaith y Bwrdd.

Rydym wedi trafod y Newid Mwyaf Sylweddol hefyd, gyda'r posibilrwydd o ddefnyddio'r dull hwn fel adnodd gwerthuso. Serch hynny, roeddem yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i ddechrau ar y gwaith hwn, a bod angen dangos rhagor o gynnydd yn erbyn y Cynllun Lles cyn cymryd y cam hwn. Rydym yn bwriadu ailymweld â'r dull hwn wrth i ni symud i mewn i'r 'cam cyflawni', gan y bydd hi'n hanfodol cael system ar waith i fonitro ac asesu ein cynnydd.

Un o'r prif heriau dros y flwyddyn ddiwethaf oedd cael cyfyngiad ar adnoddau a chapasiti; mae hyn yn parhau i gael effaith ar beth rydym yn gallu ei gyflawni. Rydym wedi gweld bod hyn yn cael effaith ar ein sefydliadau partner hefyd, gyda phwysau sefydliadol cynyddol a galw yn arwain at faterion presenoldeb. Arweiniodd hyn at beidio cael cworwm mewn rhai cyfarfodydd, gan effeithio ar ein gallu i symud camau yn eu blaen.

6. Cymryd Rhan

Rydym am i chi gadw mewn cysylltiad a chymryd rhan yn ein gwaith. Gallwch chi:

- Ddod i un o'n cyfarfodydd – mae'r holl [ddyddiadau a rhaglenni](#) wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan
- Cymryd rhan a rhannu eich barn trwy ein [gwefan](#)
- E-bostio countyconversation@conwy.gov.uk
- Ysgrifennu atom d/o Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol, Cyngor- Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN
- Ein ffonio ar 01492 574059 (gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen).
- Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ddefnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion, drwy wasanaeth InterpretersLive! a ddarperir gan Sign Solutions - ewch i [Wasanaeth InterpretersLive! Conwy](#) i ddysgu mwy.

Rydym yn barod iawn i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain a Braille.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.



**CYD-BWYLLGOR CRAFFU
BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH
RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Swyddog Cyswllt:	Rhian Evans, Cydlynnydd Craff, CSDd Dawn Hughes, Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu, CBSC
E-bost:	rhian.evans@sirddinbych.gov.uk dawn.hughes@conwy.gov.uk
Rhif Ffôn:	01824 712554 01492 576061

Dyddiad	Testun
21 Mawrth 2025	Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am weithrediad ei Gynllun Lles
21 Mawrth 2025	Cyfraniad partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i waith y Bwrdd a buddion y Bwrdd i bartneriaid
10 Hydref 2025	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych - Adroddiad Blynyddol 2024/2025
10 Hydref 2025	Cyfraniad partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i waith y Bwrdd a buddion y Bwrdd i bartneriaid

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn trwy cyfrwng fideo, Dydd Gwener, 14 Mehefin 2024 am 2.00 pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Charlie McCoubrey - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Steven Grayston - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Ceri Christian-Mullineux (dirprwy i Steven McGregor) – Llywodraeth Cymru.
Louise Woodfine - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Rhun ap Ieuan - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Martin Cox - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Helen MacArthur - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Swyddogion -

Fran Lewis -Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Hannah Edwards - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Mike Corcoran - Rhwydwaith Cyd gynhyrchu Cymru
Helen Milliband - Cyfoeth Naturiol Cymru
Iona Hughes - Cyfoeth Naturiol Cymru
Helen Vaughan- Evans – Cyngor Sir Ddinbych
Helena Kirk - Cymdeithas Tai Gogledd Cymru

Nicola Hughes - Gweinyddwr Pwyllgor (CSDd)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Graham Boase (CSDd), Arweinydd, Cynghorydd Jason McLellan (CSDd), Iolo McGregor (CSDd), Elgan Owen (CBSC)

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024. Felly:

PENDERFYNWYD: *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024 yn gofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.*

3 ENWEBIADAU CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2024/25. Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid enwebu'r Arweinydd; y Cynghorydd Jason McLellan (CSDd) yn Gadeirydd. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer penodi Is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2024/25. Cynigiwyd ac eiliwyd ail-

benodi'r Cynghorydd Charlie McCoubrey (CBSC) fel Is-gadeirydd. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD: bod yr Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan yn cael ei benodi fel Cadeirydd a'r Cynghorydd Charley McCoubrey yn cael ei benodi fel Is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2024/25.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2023/24**

Arweiniodd y Rheolwr Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Bwrdd drwy adroddiad blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) 2023/24.

Roedd adroddiad blynyddol 2023/24 yn rhoi trosolwg o beth oedd y Bwrdd wedi ei gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Lles diweddaraf. Roedd yn bwysig bod y BGC yn atebol i'r cyhoedd ac roedd yr adroddiad yn cynorthwyo'r BGC i hunan-fyfyrion ar ble roeddent yn teimlo eu bod yn gwneud gwahaniaeth, yn unol â'r 5 ffordd o weithio yn ogystal ag amlinellu cyfeiriad y Bwrdd yn y dyfodol.

Roedd y canllawiau a ddarparwyd ar gyfer y ddeddf yn nodi bod yn rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd i gyflawni'r amcanion a osodwyd yn eu cynllun llesiant. Fodd bynnag, gall yr adroddiad hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall roedd y Bwrdd yn ei ystyried yn briodol. Felly, roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu -

- Cyflawniadau yn y flwyddyn ddiwethaf
- Meysydd gwaith eraill
- Meddyliau'r Bwrdd ar ôl eleni ac edrych ymlaen; a
- Sut gall pobl gymryd rhan.

Roedd yr adroddiad blynyddol hefyd yn rhoi manylion rhai mesurau cyd-destunol allweddol hefyd, oedd yn berthnasol i'r themâu lles. Roedd y rhain yn ddangosyddion lefel uchel oedd yn nodi pam bod y themâu yn parhau'n flaenoriaeth i'r BGC ac yn helpu i roi ffocws ar drafodaethau wrth symud ymlaen.

Roedd angen i'r Bwrdd anfon copi o'u hadroddiad blynyddol at Weinidogion Cymru a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu dynodedig y Bwrdd.

Roedd prif gyflawniadau yn ystod 2023-2024 yn cynnwys -

Strwythurau a llywodraethu BGC gwell:

Cyflwyno cyfarfodydd anffurfiol: Roedd hwn yn gyfle i hwyluso rhwydweithio i holl aelodau, gan helpu i ddatblygu ymddiriedaeth a siarad yn agored ar faterion a heriau a wynebir, roedd yna hefyd adolygiad o Gylch Gorchwyl y Bwrdd.

Trafodwyd risgiau ac achosion cyffredin gyda sefydliadau partner all gael effaith ar ddarparu dyheadau Cynllun Lles y Bwrdd. Teimlwyd ei bod yn werth edrych ar risgiau ac achosion newydd fel rhanbarth Gogledd Cymru gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill.

Datblygu dulliau ‘system gyfan’ o weithio a chydweithio ar draws y rhanbarth:
Cafwyd cyflwyniadau ar Feddwl Trwy Systemau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (timau lleol a chenedlaethol). Roedd hyn o gymorth wrth edrych ar ffyrdd y gallwn ddefnyddio'r ymagwedd hwn tuag at ein huchelgais o chwarae rôl fwy arweiniol.

Yn dilyn trafodaethau cychwynnol, cynhaliwyd ymarfer mapio systemau i werthuso'r camau nesaf tuag at gyflawni'r Cynllun Lles. Roedd hyn ar gyfer nodi credoau a nodau'r system y gallwn gymryd perchnogaeth drostynt fel Aelodau BGC, a strwythurau systemau a digwyddiadau er mwyn i sefydliadau eu harwain.

Roedd y dull hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn cael y gwerth ychwanegol mwyaf o'r BGC a'r newid trawsffurfiol oedd eisiau ei gyflawni.

Gweithio gyda Chymunedau:

Mabwysiadwyd datganiad cenhadaeth ymgysylltiad ar y cyd. Roedd gwaith yn parhau i ddatblygu cynllun ymgysylltu cymunedol fel rhan o'r camau nesaf.

Roedd gwaith yn parhau ar hyn o bryd gyda Phrifysgol Wrecsam i gyflawni prosiect ymgysylltu mewn dwy gymuned yng Nghonwy a Sir Ddinbych (Pensarn a Pharc Bruton yn y Rhyl). Roedd y prosiect yn parhau, ac yn defnyddio dulliau creadigol (fel gwaith celf, ffotograffiaeth a fideo) i gefnogi cymunedau i adrodd eu hanesion ynglŷn â sut deimlad ydi byw yn eu cymuned.

Cynhaliwyd ymgysylltiad gyda chymunedau amrywiol i ddeall eu hanawsterau ac archwilio'r ffyrdd y gall y Sector Cyhoeddus helpu i rymuso pobl i mewn i'r byd gwaith. Nodwyd nifer o rwystrau ac awgrymiadau ar gyfer camau i'w cymryd. Roedd y gwaith yn cael ei wneud yn rhanbarthol ar ran tri BGC Gogledd Cymru.

Cynnydd mentrau allweddol BGC:

Roedd yna ymrwymiad i ddatblygu'r Siarter Teithio Iach yn ein sefydliadau drwy gynnal asesiad gwaelodlin o weithgareddau presennol sefydliadau yn erbyn ymrwymadau'r Siarter. Bydd hyn hefyd yn nodi unrhyw fylchau a chyfleoedd i ddatblygu yn unol â chynlluniau gweithredol presennol.

Rydym wedi gwneud ychydig o waith paratoi wrth bennu'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r fframwaith Asesiad Risg Newid Hinsawdd a ddatblygwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Gwnaed cyfraniadau i brosiect y Gymraeg a Chyflogaeth a Arweinig gan BGC Gwynedd a Môn.

Amlygwyd meysydd gwaith eraill o fewn yr adroddiad gan gynnwys parhad cydweithio gyda phartneriaethau a chyrrff cenedlaethol eraill i osgoi dyblygu ac i rannu syniadau.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am yr adroddiad a chroesawyd cwestiynau a sylwadau gan Aelodau.

Croesawodd Aelodau'r dull cydweithio ar draws Gogledd Cymru a mynegwyd manteision dull rhanbarthol.

Cyfeiriodd Aelodau at y data ar dai fforddiadwy a nodwyd dros amser y gall y wybodaeth hon ddarparu gwybodaeth ar sut oedd y nifer o gartrefi fforddiadwy ar gael yn cydgysylltu gyda'r angen am dai.

Gofynnodd yr Aelodau am ddangosyddion ar dlodi a Theithio lach o fewn yr adroddiad.

Trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd yn y dyfodol i gynnwys dangosyddion pellach o fewn yr adroddiad, fodd bynnag, oherwydd yr amserlen dynn, cytunwyd y gellir cymeradwyo'r adroddiad fel y mae, heb gynnwys dangosyddion o fewn yr adroddiad.

Trafododd a chytunodd yr Aelodau ar sesiwn ar amrywiaeth gan fod cyllid yn parhau ar gael i'w ddilyn. Byddai'r sesiwn yn anelu i gymell newid ar draws pob sefydliad ac edrych ar y gwahaniaeth y gall BGCau ei wneud wrth gydweithio.

PENDERFYNWYD bod –

- A. *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cytuno i sesiwn EDI pellach a;*
- B. *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Dinbych i gymeradwyo Adroddiad Blynnyddol 2023/24 BGC Conwy a Sir Ddinbych i'w gyhoeddi heb ychwanegu'r dangosyddion.*

5 ASESIAID RISG NEWID HINSAWDD - TROSOLWG O DRAFODAETH Y CYFARFOD ANFFURFIOL

Rhoddodd Mike Corcoran, Rhwydwaith Cyd gynhyrchu ddiweddariad ar lafar ar y drafodaeth yn y cyfarfod anffurfiol Asesu Risg Newid Hinsawdd i'r Bwrdd.

Canolbwyntiodd y cyfarfod ar dri thestun trafodaeth: Ym mha ffordd fyddai cynnal Aseiad Newid Hinsawdd yn helpu'r BGC i ddatblygu ei Gynllun Lles, beth oedd y cyfleoedd i'r BGC ystyried wrth gynnal Aseiad Risg Newid Hinsawdd a beth oedd y dull gorau ar gyfer datblygu unrhyw gyfleoedd a nodwyd ar lefel leol, ranbarthol a chymuned.

Y prif themâu o drafodaethau o fewn y cyfarfod oedd bod yna angen eglurder o amgylch y briff, beth oedd y rhwymedigaeth statudol penodol o safbwynt yr Aseiad Risg Newid Hinsawdd ac eglurder o ran pa un a oedd cynnal Aseiad Risg Newid Hinsawdd yn ddewis neu'n rhwymedigaeth i BGCau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r risgiau cyffredinol cysylltiedig â'r gwaith. Sgyrsiau ynglŷn â sicrhau bod yna ddealltwriaeth glir o'r risgiau cysylltiedig â chynnal a pheidio cynnal Aseiad Risg Newid Hinsawdd. Cydnabuwyd bod yna risg o ôl-osod aseiad risg newid hinsawdd o amgylch cynllun lles a gyhoeddwyd a chytunwyd arno. Hefyd, cydnabuwyd y byddai yna faich adnoddau cysylltiedig â

chynnal a gweithredu'r cynllun ac roedd hyn yn rhywbeth fydd yn rhaid i'r BGC ei gydnabod.

Cafwyd trafodaeth am ddoethineb mabwysiadu agwedd Gogledd Cymru gyfan posibl ar gyfer asesiadau risg a thrafodwyd hyn mewn BGC cyfagos ar hyn o bryd.

Nodwyd bod yna lawer o gynlluniau ac asesiadau lleol yn ymwneud â Newid Hinsawdd a sefydlwyd eisoes, a'r hyn oedd ei angen nawr oedd gorolwg rhanbarthol strategol.

Ynglŷn â dull cyfannol, cydnabuwyd bod y mater Newid Hinsawdd yn llawer mwy na'r cylch gwaith i BGCau yn unig, fodd bynnag, cydnabuwyd y cyfle i gysylltu drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y risg newid hinsawdd o fewn holl feysydd eraill fel economeg a lles cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

Ynglŷn â'r dull Partneriaeth, rhestrwyd nifer o gyrff allweddol ble byddai Arweinyddiaeth yn dyheu i gysylltu â nhw i ddatblygu perthynas waith agos.

I gloi, cafwyd trafodaeth am ymgysylltu a chynnwys y gymuned mewn unrhyw waith Asesu Risg Newid Hinsawdd a'r posibilrwydd i'r BGC gysylltu â sefydliadau lleol sy'n gweithio i newid hinsawdd i rannu eu harbenigedd yn y gwaith hwn.

Diolchodd y Cadeirydd am y diweddariad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Dywedodd yr Aelodau fod eglurder am yr hyn a ddisgwylir gan y BGC yn fuddiol ac awgrymwyd y byddai ymchwilio i waith BGC Sir Benfro yn werthfawr.

PENDERFYNWYD *derbyn yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd - Trosolwg o Drafodaeth Anffurfiol.*

6 SIAPIO LLEOEDD YNG NGHYMURU - DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ar y Rhaglen Siapio Lleoedd yng Nghymru i'r Bwrdd.

Cynhaliwyd digwyddiad deuddydd yng Nghaerdydd ble mynychodd 45 cynrychiolydd o 11 BGC i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ar y themâu Hinsawdd, Tlodi a Chymdogaeth. Derbyniwyd adborth cadarnhaol o'r digwyddiad a chynhelir y digwyddiad nesaf ym mis Gorffennaf 2024. Anfonir gohebiaeth at aelodau yn yr wythnos nesaf ynglŷn â dyddiadau digwyddiadau ar gyfer gweddill 2024.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd am y wybodaeth ddiweddaraf.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad Siapio Lleoedd yng Nghymru.*

7 NARATIFAU CYMUNEDOL - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y PROSIECT YM MHENSARN A PHARC BRUTON Y RHYL

Yn anffodus, nid oedd Dr Hughes yn gallu mynychu'r cyfarfod, hysbysodd Rheolwr Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Bwrdd fod Prosiectau Pensarn a Pharc Bruton y Rhyl yn eu camau cynnar a rhoddir diweddariad manwl yng nghyfarfod y BGC ym mis Medi.

PENDERFYNWYD: *nodi'r Wybodaeth Ddiweddaraaf ar y Prosiect Naratif Cymunedol a'i ohirio nes cyfarfod y BGC ym mis Medi.*

8 CYNLLUN GWAITH

Cyflwynwyd copi o Raglen Waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD: *bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Dinbych yn cymeradwyo'r Rhaglen Waith.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3pm

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

RHAGLEN WAITH

2024 / 2025

Cadeirydd:

Y Cynghorydd Jason McLellan, Cyngor Sir Ddinbych

Is-Gadeirydd:

Y Cynghorydd Charlie McCoubrey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cydlynwyr:

Emma Lea (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
Amanda Jones a Hannah Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
Iolo McGregor (Cyngor Sir Ddinbych)
Justin Hanson, Helen Millband ac Iona Hughes (Cyfoeth Naturiol Cymru)
I'w gadarnhau (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)

Pwyllgor sy'n Gyfrifol:

Cyngor Bwrdesidref Sirol Conwy

Ymholiadau:

01492 574059 / iolo.mcgregor@conwy.gov.uk

Cyfarfodydd

Dyddiad y Cyfarfod	Pwnc	Pwrpas	Swyddog Cyfrifol
--------------------	------	--------	------------------

Sesiwn Anffurfiol 20 Medi 2024 2 - 2:45pm (ar-lein)	Fframwaith Asesu Risg Newid Hinsawdd	Trafod sut y gall y BGC ddefnyddio'r Fframwaith Asesu Risg Newid Hinsawdd i gymryd camau ar y cyd ar risg hinsawdd, gan archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio rhanbarthol.	Mike Corcoran / CNC
Cyfarfod ffurfiol 20 Medi 2024 2:45pm - 4pm (ar-lein)	Fframwaith Asesu Risg Newid Hinsawdd - Diweddariad ar Lafar	I'r aelodau gytuno'n ffurfiol ar ffordd ymlaen mewn perthynas â'r Fframwaith Asesu Risg Newid Hinsawdd	Mike Corcoran / CNC
	Grant Cefnogi BGC	Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad ar wariant ymrwymedig / cynigion ar gyfer y dyfodol ac eglurder ar y broses ar gyfer cyrchu'r grant	Sandra Lyn Thomas
	Siarter Teithio Iach - Diweddariad ar Lafar	Cais gan BIPBC i ddiweddarau'r BGC	Louise Woodfine
	Siapio Lleoedd Yng Nghymru - Diweddariad ar Lafar	Cais gan BIPBC i ddiweddarau'r BGC	Iona Hughes / Louise Woodfine
Cyfarfod anffurfiol 15 Tachwedd 2023 2.30 -4.30pm (ar-lein)	100 Stori – Pontio Plant a Phobl Ifanc i Wasanaethau Oedolion	Rhannu tystiolaeth o'r Prosiect gyda'r BGC, ac archwilio cyfleoedd ar gyfer ymrwymiad parhaus gan y BGC i gefnogi datblygiad gwasanaethau.	Christy Hoskings, Arweinydd Rhanbarthol Profiad y Claf ar gyfer Gwasanaethau Plant, BIPBC
	Cynllunio'r Rhaglen Waith		
Cyfarfod ffurfiol 16 Rhagfyr 2024 2 -4pm (ar-lein)	Adolygiad o Gofrestr Risg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Mae'n arfer da i'r BGC adolygu ei Gofrestr Risg yn rheolaidd	I'w gadarnhau
	Mesuryddion Perfformiad	Yn dilyn cymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol, roedd aelodau'r	Iolo McGregor

		BGC yn awyddus i gael trafodaeth lawnach ar Fesurau Llesiant LIC.	
	Diweddariad ar y Prosiect Naratifau Cymunedol a Gwerthuso Creu Conwy	Rhoi adborth i aelodau BGC ar y cynnydd a wnaed gyda'r Prosiect Naratifau Cymunedol a'i fanteision. Yn ogystal, rhannu'r hyn a ddysgwyd o Raglen Creu Conwy.	Dr Rachel Hughes

Cyfarfod anffurfiol 7 Chwefror 2025, 9.30-11.30am (ar-lein)			
---	--	--	--

Cyfarfod ffurfiol 28 Mawrth 2025, 9.30-11.30am (ar-lein)	Grant Cefnogi BGC - gwariant 24/25 a throsolwg o gynigion 2025/26		
--	---	--	--

Eitemau Rheolaidd ar y Rhaglen
Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Materion yn Codi
Tracio Camau Gweithredu'r Cyfarfod
Diweddariad gan aelodau partner / Rhannu cyfleoedd
Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol
Unrhyw Fater Arall

Eitemau dros dro		
Fframwaith Perfformiad Cynllun Lles	Cyflwyno fframwaith perfformiad lefel uchel i gefnogi'r cynllun lles a thrafodaethau ynghylch cydraddoldeb ac amddifadedd.	Iolo McGregor, Cyngor Sir Ddinbych
Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam	Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen.	Sian Fearne-Thomas, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gyfraith Gofal Gwrthgyfartal	Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen.	Helena Belmans, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cynlluniau Lles BGC Gogledd Cymru	Cael gwell dealltwriaeth o waith BGC cyfagos a'r heriau a wynebant.	I'w gadarnhau (ond gwahodd cadeiryddion BGC GC eraill)